**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1236
Ein cyf/Our ref EM/14336/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

14 Rhagfyr 2021

Annwyl Jack,

**DEISEB P-06-1236 – DYLAI MENYWOD GAEL EU SGRINIO'N RHEOLAIDD AR GYFER CANSER YR OFARI DRWY GAEL PRAWF GWAED O'R ENW CA125**

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 25 Tachwedd.

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i sicrhau bod cynifer o fathau o ganser â phosibl yn cael eu canfod yn gynharach pan fônt yn haws eu trin, ac rydym yn disgwyl i ofal sylfaenol ymchwilio i symptomau menywod yr amheuir y gallai fod ganddynt ganser neu sydd â risg uchel o gael canser yr ofari, yn unol â chanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE).

Mae'r canllawiau presennol yn dweud y dylai menywod sydd â symptomau canser yr ofari gael prawf gwaed CA125  er mwyn gweld a oes angen iddynt gael archwiliad uwchsain. Fodd bynnag, gwneir hyn i ymchwilio i achosion lle mae amheuaeth glinigol y gallai fod gan fenyw ganser, yn hytrach na fel rhan o raglen sy'n sgrinio poblogaeth yn rheolaidd, gan nad yw'r prawf presennol yn ddigon cywir ar gyfer y diben hwnnw. Rydym yn parhau i annog menywod i gael cyngor prydlon gan eu timau gofal sylfaenol os oes ganddynt symptomau sy'n awgrymu y gallai fod ganddynt ganser.

Mae'r holl raglenni sgrinio asymptomatig ar gyfer poblogaethau yn cael eu datblygu a'u darparu'n seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael, ac maent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU yn rhoi cyngor arbenigol annibynnol ar sgrinio i holl Weinidogion y DU, ac ar hyn o bryd nid yw'n argymell sgrinio ar gyfer canser yr ofari.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fe wnaeth y Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol ystyried sgrinio ar gyfer canser yr ofari yn 2017, a bu’n edrych ar ddata clinigol yr *United Kingdom Collaborative Trial of Ovarian Cancer Screening,* lle y cafodd menywod eu sgrinio ar gyfer y canser hwn. Yn y treial, gwelwyd na wnaeth y sgrinio leihau nifer y menywod a fu farw o ganser yr ofari. Bydd y treial yn parhau i ddilyn y menywod a gafodd eu sgrinio, a chytunodd y pwyllgor i adolygu’r canlyniadau tymor hirach pan fyddant yn cael eu cyhoeddi. Pe bai Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU yn newid ei argymhelliad, byddai Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gellid gweithredu hynny yng Nghymru.

Yn gywir,

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services